**GORCHYMYN TRAFFORDD YR M48 (CYFFORDD 23 (ROGIET) I GYFFORDD 2 (CYFNEWIDFA NEWHOUSE), SIR FYNWY) (TERFYN CYFLYMDER 50 MYA DROS DRO) 2023**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar draffordd yr M48 neu gerllaw iddi rhwng Cyffordd 23 (Rogiet) a Chyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse) yn Sir Fynwy.

Effaith y Gorchymyn fydd gosod terfyn cyflymder 50 mya dros dro ar y darnau o'r draffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

Disgwylir y bydd y cyfyngiad dros dro, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn weithredol o 00:00 o'r gloch ar 11 Medi 2023 ac yn parhau mewn grym am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN**

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain yr M48 sy'n ymestyn o'r man lle y mae'n uno â cherbytffordd tua'r dwyrain yr M4 wrth Gyffordd 23 (Rogiet) hyd at bwynt 180 o fetrau i'r dwyrain o'i thrwyniad â ffordd ymuno tua'r dwyrain yr M48 wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse).

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin yr M48 sy'n ymestyn o bwynt 180 o fetrau i'r dwyrain o'i thrwyniad â ffordd ymuno tua'r dwyrain yr M48 wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse) hyd at y man lle y mae'n uno â cherbytffordd tua'r gorllewin yr M4 wrth Gyffordd 23 (Rogiet).

Y darn o ffordd ymadael tua'r dwyrain yr M48 sy'n ymestyn o'i thrwyniad â cherbytffordd tua'r dwyrain yr M48 wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse) hyd at bwynt 250 o fetrau i'r gorllewin o'r gyffordd honno.

**THE M48 MOTORWAY (JUNCTION 23 (ROGIET) TO JUNCTION 2 (NEWHOUSE INTERCHANGE), MONMOUTHSHIRE) (TEMPORARY 50 MPH SPEED LIMIT) ORDER 2023**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the M48 motorway between Junction 23 (Rogiet) and Junction 2 (Newhouse Interchange) in the County of Monmouthshire.

The effect of the Order will be to temporarily impose a 50 mph speed limit on the lengths of the motorway specified in the Schedule to this Notice.

The temporary restriction, which will be signed accordingly, is expected to operate from 00:00 hours on 11 September 2023 and remain in force for a maximum period of 18 months.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

**SCHEDULE**

The length of the M48 eastbound carriageway that extends from its merge with the M4 eastbound carriageway at Junction 23 (Rogiet) to a point 180 metres east of its nosing with the M48 eastbound entry slip road at Junction 2 (Newhouse Interchange).

The length of the M48 westbound carriageway that extends from a point 180 metres east of its nosing with the M48 eastbound entry slip road at Junction 2 (Newhouse Interchange) to its merge with the M4 westbound carriageway at Junction 23 (Rogiet).

The length of the M48 eastbound exit slip road that extends from its nosing with the M48 eastbound carriageway at Junction 2 (Newhouse Interchange) to a point 250 metres west of that junction.

The entire length of the M48 eastbound entry slip road at Junction 2 (Newhouse Interchange).

Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r dwyrain yr M48 wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse).

Y darn o ffordd ymadael tua'r gorllewin yr M48 sy'n ymestyn o'i thrwyniad â cherbytffordd tua'r gorllewin yr M48 wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse) hyd at bwynt 200 metr i'r dwyrain o'r gyffordd honno.

Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r gorllewin traffordd yr M48 wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse).

The length of the M48 westbound exit slip road that extends from its nosing with the M48 westbound carriageway at Junction 2 (Newhouse Interchange) to a point 200 metres east of that junction.

The entire length of the M48 motorway westbound entry slip road at Junction 2 (Newhouse Interchange).